Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CYNLLUNIO*

***10.00 AM - DYDD MAWRTH, 23 CHWEFROR 2021***

***O BELL TRWY TEAMS***

**RHAID GOSOD POB FFÔN SYMUDOL AR Y MODD DISTAW AR GYFER PARHAD Y CYFARFOD**

## Rhan 1

1. Datganiadau o fuddiannau

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 5 - 6)*

3. Gwneud cais am ymweliad(au) safle gan y ceisiadau a gyflwynwyd

**Adroddiad/au'r Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd**

**Adran A - Materion i'w Penderfynu**

**Ceisiadau Cynllunio wedi'u hargymell ar gyfer Cymeradwyaeth**

4. Cais Rhif P2020/0992 - Rhodfa Bevin, Sandfields
*(Tudalennau 7 - 48)*

5. Cais Rhif P2020/1071- Tir yn Heol Tabor, Cwmafan
*(Tudalennau 49 - 68)*

6. Cais Rhif P2020/1041 - 45 Heol Victoria, Sandfields
*(Tudalennau 69 - 86)*

7. Gorfodi - Adroddiad Amhriodoldeb - Parc Goshen, Sgiwen
*(Tudalennau 87 - 90)*

8. Eitemau brys
(Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**K.Jones**
**<u>Prif Weithredwr</u>**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Mercher, 17 Chwefror 2021**

**<u>Aelodaeth Pwyllgor:</u>**

**Cadeirydd:** **S.Paddison**

**Is-Gadeirydd:** **S.Pursey**

**Aelodau:** Councillors C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, S.Bamsey, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams, S.Renkes a/ac M.Protheroe

**Aelod Cabinet:** Councillor A.Wingrave

**Gwneud cais i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio**

Mae gan y cyhoedd hawl i fynd i'r cyfarfod ac annerch y pwyllgor yn unol â gweithdrefn gytunedig y cyngor sydd ar gael yn www.npt.gov.uk/planning**.**

Os hoffech siarad yn y Pwyllgor Cynllunio ynghylch cais yr adroddwyd amdano i'r pwyllgor hwn, mae'n rhaid i chi:

- Gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig, naill ai drwy'r post yn: Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ, neu'n ddelfrydol drwy e-bostio: democratic.services@npt.gov.uk.
- Sicrhau eich bod yn gwneud eich cais i siarad ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf (erbyn 2pm ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth).
- Nodi'n glir rif yr eitem neu'r cais rydych am siarad amdani/o a chadarnhewch a ydych yn cefnogi'r cais neu'n ei wrthwynebu.
- Rhoi eich enw a'ch cyfeiriad (a fydd ar gael i'r cyhoedd oni bai fod rhesymau penodol dros gyfrinachedd).

Sylwer, dim ond un person sy'n gallu siarad ar ran pob 'categori' ar gyfer pob cais h.y. y gwrthwynebydd, y cefnogwr, yr ymgeisydd/asiant, y Cyngor Cymuned/Tref. Ceir manylion llawn yng ngweithdrefn gytunedig y cyngor.

Yn ogystal, os yw gwrthwynebydd yn dymuno siarad, hysbysir yr ymgeisydd/asiant gan y cyngor.

Os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar siarad cyhoeddus, ffoniwch dîm y Gwasanaethau Democrataidd ar 01639 763313.

**Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio yr adroddir amdanynt i'r pwyllgor**

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gais a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio hwn, sylwer bod rhaid i'r Adran Gynllunio dderbyn y rhain erbyn 2.00pm ar y dydd Gwener cyn cyfarfod y pwyllgor fan bellaf (yn seiliedig ar y cyfarfod dydd Mawrth arferol). Os nad yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid eu derbyn erbyn 2.00pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y Pwyllgor Cynllunio fan bellaf.

Caiff sylwadau a dderbynnir yn unol â phrotocol y cyngor eu crynhoi a, lle y bo'n briodol, gwneir sylwadau arnynt ar ffurf Taflen Ddiwygio, a

ddosberthir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-bost ar y noson cyn cyfarfod y pwyllgor, a'i chyflwyno ar ffurf copi caled yn y cyfarfod.